Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Greenfields

Graig Y Saeson
Forge Road
Basaleg
Casnewydd
NP10 8AT

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Greenfields

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Greenfields |
| Statws y perchennog | CareTech Community Services Ltd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 7 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 7 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 17/02/2025 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/03/2026 |

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Greenfields yn ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli yn un o faestrefi Casnewydd. Perchennog yr ysgol yw CareTech Community Services Ltd, sef cwmni cyfyngedig preifat, sy'n rheoli'r ysgol, hefyd. Mae'r perchennog yn berchen ar gartrefi plant ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i ddarparu addysg ar gyfer hyd at 30 o ddisgyblion rhwng 9 ac 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae'n darparu ar gyfer cyfuniad o leoliadau preswyl a lleoliadau dydd. Adeg yr arolygiad, roedd 7 disgybl ar gofrestr yr ysgol.

Yn yr arolygiad ym mis Chwefror 2025, nid oedd yr ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2025 ac fe'i cefnogir gan ddirprwy bennaeth a benodwyd ar yr un pryd. Mae'r ysgol yn cyflogi 4 athro, un cynorthwyydd cymorth dysgu a chynorthwyydd gweinyddol. Mae cyfarwyddwr addysg rhanbarthol o'r sefydliad ehangach, a benodwyd ym mis Medi 2025 hefyd, yn darparu cymorth ychwanegol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r ysgol lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) i fynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, roedd yn ofynnol i'r ysgol fynd i'r afael â'r materion canlynol o dan bob safon:

## Safon 1: Ansawdd yr Addysg a Ddarperir

- Sicrhau bod polisi ysgrifenedig ar gwricwlwm yr ysgol annibynnol, wedi'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, sy'n darparu ar gyfer y materion a nodir yn is-baragraff (2), yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn effeithiol [2(1)(a)]
- Sicrhau bod y polisi, y cynlluniau a'r cynlluniau gwaith ysgrifenedig, yn ystyried oedrannau, dyheadau ac anghenion pob un o'r disgyblion, yn cynnwys y disgyblion hynny sydd â CDU neu ddatganiad, nid ydynt yn tanseilio gwerthoedd sylfaenol democratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid unigol a pharch ar y ddwy ochr, a goddefgarwch o'r rhai sydd â gwahanol ffydd a chredoau, ac ystyried yr egwyddorion yn Rhan 1 y Confensiwn [2(1)(b)]
- Sicrhau bod addysg amser llawn sy'n cael ei goruchwylio ar gyfer pob un o'r disgyblion o oed ysgol gorfodol, sy'n rhoi profiad i ddisgyblion yn y meysydd canlynol: iaith, cyfathrebu, mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg, y dyniaethau, iechyd, lles a'r celfyddydau mynegiannol [2(2)(a)
- Sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau mewn siarad, gwrando, llythrennedd a rhifedd. [2(2)(b)]
- Darparu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd sydd— i) yn adlewyrchu nodau ac ethos yr ysgol annibynnol, ac ii) yn annog parch am bobl eraill, gan roi ystyriaeth benodol i'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf 2010 [2(2)(d)]
- Darparu mynediad at arweiniad cywir a chyfoes ar yrfaoedd sy'n cael ei gyflwyno mewn modd diduedd ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd, yn eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am ystod eang o opsiynau gyrfa, ac yn helpu eu hannog i gyflawni eu potensial [2(2)(e)]
- Sicrhau bod cyfle i bob un o'r disgyblion ddysgu a gwneud cynnydd, gan gynnwys darparu cyfleoedd gwahaniaethol, lle bo'n briodol, a pharatoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau mewn bywyd oedolyn [2(2)(h)]
- Galluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd a gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu fel y gallant gynyddu eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn y pynciau sy'n cael eu haddysgu [2(3)(a)]
- Sicrhau bod yr addysgu yn meithrin ymdrech ddeallusol, gorfforol neu greadigol ymhlith disgyblion, diddordeb yn eu gwaith a'r gallu i feddwl a dysgu drostynt eu hunain, [2(3)(b)]
- Sicrhau bod gwersi wedi eu cynllunio'n dda, dulliau addysgu effeithiol, gweithgareddau addas a bod amser dysgu'n cael ei reoli'n ddoeth [2(3)(c)]
- Sicrhau bod addysgu yn dangos dealltwriaeth dda o ddyheadau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi, [2(3)(d)]
- Sicrhau bod addysgu yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r testun sy'n cael ei addysgu, [2(3)(e)]

- Sicrhau bod yr addysgu'n gwneud defnydd effeithiol o adnoddau dysgu o ansawdd swm ac ystod da, [2(3)(f)]
- Dangos bod fframwaith ar waith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr ac yn defnyddio gwybodaeth o'r asesiadau hynny i gynllunio addysgu er mwyn i ddisgyblion allu gwneud cynnydd [2(3)(g)]
- Sicrhau strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad ac annog disgyblion i ymddwyn yn gyfrifol, [2(3)(h)]
- Sicrhau nad yw addysgu yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion yn groes i Ran 6 Deddf 2010 [2(3)(k)]
- Sicrhau bod gan yr ysgol annibynnol fframwaith ar gyfer gwerthuso perfformiad disgyblion, trwy gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol annibynnol ei hun fel y darparwyd i rieni neu normau cenedlaethol, neu i'r naill a'r llall. [3]

## Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

- Sicrhau bod egwyddorion yn cael eu hyrwyddo'n weithredol sydd—
    - i) yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu hunanwybodaeth, eu hunan-barch a'u hunanhyder,
    - ii) yn galluogi disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg, a pharchu'r gyfraith sifil a throseddol,
    - iii) yn annog disgyblion i dderbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad, dangos blaengaredd a deall sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at fywydau'r rhai o fewn cymuned yr ysgol annibynnol, y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal leol y mae'r ysgol annibynnol wedi'i lleoli ynddi, ac at gymdeithas yn ehangach,
    - iv) yn annog parch am bobl eraill, gan roi ystyriaeth benodol i'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf 2010,
    - v) yn darparu gwybodaeth gyffredinol eang i ddisgyblion am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach, vi) yn cynorthwyo disgyblion i gaffael gwerthfawrogiad o'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill, a pharch amdanynt, mewn ffordd sy'n hyrwyddo goddefgarwch a chytgord ymhellach rhwng gwahanol draddodiadau diwylliannol,
    - vii) yn annog disgyblion i barchu gwerthoedd sylfaenol democratiaeth a chymorth ar gyfer cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, rheol y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharch a goddefgarwch ar y ddwy ochr am y rhai sydd â gwahanol ffydd a chredoau, [4 (c)]

## Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

- Sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol annibynnol, [6(a)]
- Sicrhau bod polisi ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn effeithiol [6(b)]
- Sicrhau bod lles disgyblion yn yr ysgol annibynnol yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo trwy lunio polisi ysgrifenedig ar asesu risg sy'n cynnwys asesiad o weithgareddau a gynhelir y tu allan i safle'r ysgol annibynnol, a bod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol [8(a)]
- Sicrhau bod pob un o'r staff, y staff cyflenwi, y gwirfoddolwyr a'r disgyblion yn cael hyfforddiant priodol ym mholisi diogelu'r ysgol annibynnol, yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â diogelu [10(a)]
- Sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r hyfforddiant hwnnw yn cael ei gynnal. 10(b)]
- Sicrhau bod polisi ysgrifenedig ar ymddygiad yn cael ei lunio a'i weithredu'n effeithiol sydd—
    - (i) yn annog ac yn gwobrwyo ymddygiad da,
    - (ii) yn nodi'r costau a fydd yn cael eu mabwysiadu os yw disgybl yn camymddwyn,
    - iii) yn ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru [11(a)
- Sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r cosbau a osodir ar ddisgyblion am gamymddwyn difrifol. [11(b)]
- Sicrhau bod bwlio yn yr ysgol annibynnol yn cael ei atal cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, trwy lunio a gweithredu strategaeth gwrthfwlio effeithiol.[12]
- Sicrhau cydymffurfio â chyfreithiau iechyd a diogelwch perthnasol trwy lunio polisi ysgrifenedig ar iechyd a diogelwch sy'n cynnwys ystyriaeth i weithgareddau'r tu allan i safle'r ysgol annibynnol, a gweithredu'r polisi yn effeithiol.[13]
- Sicrhau cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Rhag Tân) 2005(1).[14]
- Sicrhau bod disgyblion yn cael eu goruchwylio'n briodol trwy ddefnyddio staff yr ysgol annibynnol yn briodol. [16]
- Sicrhau bod cofrestrau derbyn a phresenoldeb yn cael eu cynnal yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 434 Deddf 1996 (1). [17]

## Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

- Sicrhau bod y perchennog yn cynnal gwiriadau priodol i gadarnhau'r canlynol o ran unigolyn—
    - (i) hunaniaeth yr unigolyn,
    - (ii) ffitrwydd meddygol yr unigolyn,
    - (iii) hawl yr unigolyn i weithio yn y Deyrnas Unedig, a
    - (iv) chymwysterau'r unigolyn, lle bo'n briodol, [20(2)(d)]
- Sicrhau, yn achos unrhyw unigolyn nad yw cael tystysgrif o'r fath yn ddigonol i sefydlu addasrwydd yr unigolyn i weithio mewn ysgol annibynnol, oherwydd bod yr unigolyn hwnnw yn byw neu wedi byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, bod mwy o wiriadau'n cael eu gwneud fel y gwêl y perchennog yn briodol, gan ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru [20(2)(f)]
- Sicrhau bod rhaid i'r gwiriadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) (ac eithrio lle mae is-baragraff (4) yn berthnasol) gael eu cwblhau cyn penodi unigolyn. [20(3)]
- Sicrhau
    - (i) lle mae unigolyn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) os yw'r perchennog yn gwirio statws tystysgrif yr unigolyn o leiaf bob tair blynedd;
    - (ii) lle nad yw unigolyn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, os yw'r perchennog yn gwneud cais am dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ran yr unigolyn hwnnw o leiaf bob tair blynedd, a bod y perchennog, ar ôl ystyried y wybodaeth o'r gwiriad neu'r cais, yn ystyried bod yr unigolyn yn parhau i fod yn anaddas ar gyfer y swydd y penodir yr unigolyn iddi; [23(a)]
- Sicrhau, at ddibenion is-baragraffau (a) i (d), lle nad yw gwiriad wedi cael ei wneud gan wasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu ni wnaed cais am dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ran unrhyw unigolyn o fewn cyfnod o 3 blynedd yn gorffen â'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym arno, bod rhaid gwneud y gwiriad neu'r cais cyntaf o fewn cyfnod o 180 diwrnod yn dechrau gyda'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. [23(e)]
- Sicrhau cofrestr yn unol â pholisi'r ysgol annibynnol ar gadw data sy'n dangos y wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraffau (3) i (5) fel sy'n berthnasol i'r ysgol annibynnol dan sylw. [24(1)]
- Sicrhau bod y gofrestr y cyfeirir ati yn is-baragraff (1) yn gallu cael ei chadw ar ffurf electronig, ar yr amod bod y wybodaeth sydd wedi'i chofnodi yn gallu cael ei hailgynhyrchu mewn ffurf ddarllenadwy. [24(2)
- Sicrhau p'un a wnaed y canlynol mewn cysylltiad â phob aelod o staff ("S")—
    - (i) gwiriwyd pwy yw S,
    - (ii) gwnaed gwiriad i bennu p'un a yw S wedi cael ei wahardd o weithgarwch wedi'i reoleiddio yn ymwneud â phlant, yn unol ag adran 3(2) Deddf 2006,

  - (iii) gwnaed gwiriad i bennu p'un a yw S yn destun gorchymyn gwahardd, gorchymyn gwahardd dros dro, gorchymyn atal neu orchymyn atal dros dro,
  - (iv) gwnaed gwiriad i bennu p'un a yw S yn destun unrhyw gyfarwyddyd a wnaed o dan adran 142 neu 167A Deddf 2002, adran 128 Deddf 2008 neu unrhyw anghymhwysiad, gwaharddiad neu gyfyngiad sy'n dod i rym fel pe bai wedi'i gynnwys mewn cyfarwyddyd o'r fath,
  - (v) gwnaed gwiriadau i sicrhau bod gan S y cymwysterau perthnasol, lle bo'n briodol,
  - (vi) cafwyd tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ran S (neu ble mae S wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriwyd statws tystysgrif S),
  - (vii) gwnaed gwiriad i weld a oes gan S hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig, a
  - (viii) gwnaed gwiriadau yn unol â pharagraff 20(2)(f), yn cynnwys y dyddiad y cwblhawyd pob gwiriad o'r fath arno, neu y cafwyd y dystysgrif. [24 (3)(b)]

## Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

- Sicrhau bod adeiladau'r ysgol annibynnol yn gwrthsefyll treiddiad glaw, gwynt ac anwedd o'r ddaear yn rhesymol, [27(f)]
- Sicrhau bod ystafelloedd dosbarth yn caniatáu addysgu effeithiol ac nad ydynt yn peryglu iechyd a diogelwch [27(j)]
- Sicrhau bod safon yr addurno yn foddhaol ac yn cael ei gynnal yn ddigonol [27(q)]

## Safon 6: Darparu gwybodaeth

- Sicrhau, lle mae disgybl sydd â chynllun datblygu unigol neu ddatganiad wedi'i gofrestru yn yr ysgol annibynnol, bod rhaid i'r ysgol annibynnol ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r awdurdod lleol fel y gellir gofyn amdano'n rhesymol at ddiben adolygiad statudol o'r cynllun datblygu unigol neu'r datganiad. [28(8)]

## Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

- Sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw, yn unol â pholisi'r ysgol annibynnol ar gadw data, am yr holl gŵynion, gan gynnwys p'un a ydynt yn cael eu datrys yn y cam cychwynnol neu'n symud ymlaen i wrandawiad panel, ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd gan yr ysgol annibynnol o ganlyniad i'r cwynion hynny, a ph'un a gawsant eu cynnal, [29(j)]

Ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2025, ymwelodd tîm o arolygwyr â'r ysgol i drafod cynnydd yn erbyn y CGOA. Ar ôl hynny, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Mawrth 2026 i werthuso cydymffurfiad â'r safonau nad oedd yr ysgol yn cydymffurfio â nhw yn y gorffennol.

## Prif ganfyddiadau

Er mis Medi 2025, mae'r tîm arweinyddiaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi cymryd camau pendant a phwrpasol i sefydlu diwylliant dysgu newydd yn Ysgol Greenfields. Mae arweinwyr a staff yn dangos ymrwymiad cryf ar y cyd i wella cyfleoedd mewn bywyd y disgyblion. O ganlyniad, maent wedi llwyddo i fynd i'r afael â llawer o'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad ym mis Chwefror 2025.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith parchus a chefnogol â disgyblion ac yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn ddigynnwrf a chroesawgar. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson o hyd, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ar draws y cwricwlwm. Yn y sesiynau mwyaf effeithiol, mae athrawon yn defnyddio holi pwrpasol i gynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu a datblygu hyder, annibyniaeth a medrau annibynnol. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, nid yw gweithgareddau dysgu yn darparu her ddigonol, ac nid ydynt yn cael eu haddasu'n effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion. Ar adegau, mae gwybodaeth bynciol wan a strategaethau addysgu aneffeithiol yn arwain at gynnydd cyfyngedig. Mae gormod o gyfarwyddyd a sgaffaldiau gormodol yn lleihau cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion feddwl yn annibynnol a chymryd perchnogaeth o'u dysgu. Yn ychwanegol, mae anghysondebau mewn disgwyliadau ac arferion ystafell ddosbarth, sy'n cynnwys disgyblion yn ymddwyn yn aflonyddgar neu ddim yn mynychu gwersi, yn cyfyngu ar barhad dysgu. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cael eu haddysgu ar safle'r ysgol. At ei gilydd, er bod mwyafrif o ddisgyblion yn fodlon ymgysylltu a gweithio'n annibynnol, ar y cyfan, pan roddir cyfle iddynt, nid yw'r addysgu yn eu cynorthwyo'n gyson i wneud cynnydd da.

Yn ystod yr arolygiad, roedd ymddygiad disgyblion yn briodol. Roeddent yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ymwelwyr, ac roedd llawer ohonynt yn awyddus i drafod eu gwaith. Mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyfleoedd priodol i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol a'u dealltwriaeth ehangach o'r byd. Er enghraifft, trwy wasanaethau wythnosol, gweithgareddau cyfoethogi rheolaidd, gweithio yn y gymuned a gweithgareddau elusennol.

Rhoddir blaenoriaeth uchel yn yr ysgol i ddiogelu disgyblion. Mae pob un o'r staff yn cael hyfforddiant diogelu priodol a thrafodir materion diogelu yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff. Mae polisïau priodol ar waith i helpu cysondeb wrth ddelio ag unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Mae staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai disgybl yn gwneud datgeliad iddynt. Mae'r rhan fwyaf o aelodau staff yn dilyn canllawiau cytûn ar gyfer rheoli ymddygiad, sy'n cefnogi cysondeb ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal asesiadau risg addas, ar y cyfan, ar gyfer llawer o'r gweithgareddau oddi ar y safle.

Ers yr arolygiad craidd, bu trosiant sylweddol o ran staff. Mae arweinwyr wedi rhoi prosesau recriwtio diogel ar waith sy'n bodloni gofynion recriwtio mwy diogel. Caiff yr holl wiriadau a chofnodion fetio gofynnol eu cwblhau a'u cofnodi yn unol â *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* a'r Safonau Ysgolion Annibynnol. O ganlyniad, mae pob un o'r aelodau staff newydd a benodir yn cael eu fetio'n briodol, ac mae trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae arweinwyr wedi gwella safle'r ysgol fel bod disgyblion bellach yn dysgu mewn amgylchedd deniadol, diogel a chroesawgar. Caiff yr adeilad ei gynnal yn dda, ac mae'n cynnwys adnoddau addas.

Mae arweinwyr wedi cryfhau cynllunio a phrosesau ar gyfer adolygiadau statudol o gynlluniau datblygu unigol (CDUau) a chynlluniau addysg, iechyd a gofal (CAIGau). Bellach, caiff adolygiadau eu cwblhau o fewn graddfeydd amser gofynnol, ac mae dogfennaeth yn amserol a chywir.

Mae'r ysgol bellach yn cynnal cofnodion digidol o gŵynion sy'n fanwl ac yn cael eu storio'n ddiogel, yn cynnwys pryderon ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r polisi cwynion yn darparu arweiniad clir ac yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod addysg amser llawn wedi'i goruchwylio ar gyfer pob disgybl o oed ysgol gorfodol, sy'n rhoi profiad i ddisgyblion yn y meysydd canlynol: iaith, cyfathrebu, mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg, y dyniaethau, iechyd, lles a'r celfyddydau mynegiannol [2(2)(a)
- Sicrhau cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd, yn cynnwys darparu cyfleoedd gwahaniaethol, lle bo'n briodol, a pharatoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn [2(2)(h)]
- Galluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd a gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu fel eu bod yn cynyddu eu dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau yn y pynciau sy'n cael eu haddysgu [2(3)(a)]
- Sicrhau bod gwersi wedi eu cynllunio'n dda, dulliau addysgu effeithiol, gweithgareddau addas a bod amser dysgu'n cael ei reoli'n ddoeth [2(3)(c)]
- Sicrhau bod addysgu yn dangos dealltwriaeth dda o ddyheadau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi, [2(3)(d)]
- Sicrhau bod addysgu yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r testun pwnc sy'n cael ei addysgu, [2(3)(e)]

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i’r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Nid yw’r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2026